# LC1277

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
|---|---|

## Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Cymru) 2006

Mae’r Rheoliadau hyn yn dirymu ac yn ail-wneud Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Cymru) 2003, gyda newidiadau. Maent yn gwneud darpariaeth ar gyfer gweinyddu a gorfodi Rheoliad (EC) Rhif 1774/2002 Senedd Ewrop a’r Cyngor sy’n gosod rheolau iechyd ynghylch sgil-gynhyrchion anifeiliaid na fwriedir i bobl eu bwyta (OJ Rhif L273, 10.10.2002, t1.) ("Rheoliad y Gymuned").

## Rheol Sefydlog 11.7

Nodwyd y pwynt canlynol i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

Mae Rheoliad 51(7) yn cynnwys iaith rhyw benodol (iddo). [Rheol Sefydlog 11.7(vii)]

Mân wall drafftio neu deipograffyddol yw hwn sy’n addas i’w gywiro drwy Femorandwm Cywiriadau.

## Sylwadau

Gwneir y Rheoliadau hyn o dan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972, sy’n caniatáu gwneud rheoliadau at ddibenion gweithredu unrhyw rwymedigaeth Cymunedol y Deyrnas Unedig. Mae’n ymddangos bod Rheoliad 11(1)(a) yn mynd y tu hwnt i’r hyn sy’n ofynnol at ddibenion

gweithredu rhwymedigaethau Cymunedol, gan ei fod yn cyfeirio’n benodol at wastraff arlwyo er nad yw’r Rheoliad Cymunedol yn gymwys iddo. Fodd bynnag, mae adran 2(2)(b) o Ddeddf 1972 yn caniatáu rheoliadau i ymdrin â "matters arising out of or related to any such obligation" ac mae’n ymddangos bod hyn wedi caniatáu defnyddio cyfundrefn sengl ar gyfer pob math o wastraff arlwyo yn hytrach na chael system wahanol, yn dibynnu ar bwerau gwahanol, ar gyfer yr hyn a eithrir o’r Rheoliad Cymunedol.

Roedd Cynghorwyr Cyfreithiol y Pwyllgor yn gallu ystyried drafftiau cynharach o’r Rheoliadau hyn, sy’n golygu y gellir mynd i’r afael â’r rhan fwyaf o’r pryderon hyn. Gellir ymdrin â rhai materion fformadu eraill wrth gyhoeddi’r Rheoliadau.

## David Melding AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

## 2 Mai 2006